Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-909
Ein cyf/Our ref KW/07214/19

Janet Finch-Saunders AC
Aelod y Cynulliad dros Aberconwy
Cadeirydd - Pwyllgor deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

8 Hydref 2019

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Medi, ar ran y Pwyllgor Deisebau, ynghylch a Deiseb P-05-909 – Hyrwyddo'r defnydd o iaith arwyddion Makaton yn holl ysgolion Cymraeg – a ddechreuwyd gan Isabella Evans.

Diolch am y cyfle i ystyried y pwyntiau a godwyd gan Isabella ar y mater y mae'n teimlo mor gryf amdano. Rwy eisiau bod yn glir fy mod eisiau i bod disgybl fod yn medru mwynhau eu haddysg, i fod yn uchelgeisiol ac i lwyddo yn beth bynnag y maent yn dewis ei wneud.

Rydym yn datblygu cwricwlwm newydd i Gymru a fydd yn cynnwys Cymraeg, Saesneg a iaith ryngwladol o'r ysgol gynradd. Mae'n bwysig deall bod y term 'iaith rhyngwladol' yn cael ei ddefnyddio i alluogi ysgolion i gynnwys nid yn unig y ieithoedd modern traddodiadol a ddysgir yn ein hysgolion ond hefyd Iaith Arwyddion Prydain (IAP / BSL), ieithoedd y gymuned neu ieithoedd clasurol.

Mae ein arloeswyr sy'n datblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu yn cynnwys athrawon o ysgolion arbennig. Mae'r grwp yn o gystal wedi cysylltu gyda'r Gymdeithas Plant Byddar Cenedlaethol (NDCS). Y mae wedi bod yn glir iawn yn nigwyddiadau ymgysylltu'r cwricwlwm nad yw Makaton yn cael ei ddiffinio o fewn ieithoedd rhyngwladol. Rydym yn adnabod bod Makaton yn ffordd grêt i ddatblygu cyfathrebu; nid yw, fodd bynnag, yn cael ei adnabod fel iaith yn ei hunan gan Lywodraeth Cymru, yn wahanol i IAP sydd wedi cael ei adnabod ers Ionawr 2004.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw, fodd bynnag, y bwriad na'r nod o'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu i gyfyngu y dewis o ieithoedd a gynigir i un iaith. Byddai'r fath gyfyngiad yn rhedeg gyferbyn a ethos y cwricwlwm newydd, sy'n edrych i gefnogi ac ehangu, yn hytrach na cyfyngu, dysgu iaith ac amrywiaeth iaith o fewn y cwricwlwm. Ni fyddai dim yn rhwystro ysgolion rhag dysgu / defnyddio Makaton ond byddai hyn yn ychwanegol i Cymraeg, Saesneg ac o leiaf un iaith ryngwladol erbyn diwedd cynradd.

O fewn y cwricwlwm ysgol cyfredol gall ysgolion archwilio meysydd pwnc ychwanegol, megis iaith arwyddion, trwy wersi Addysg Personol a Chymdeithasol (APaCh) a thrwy ddysgu'r Bagloriaeth Gymraeg. Mae gennym ddeunyddiau ar ein platfform dysgu Hwb, sy'n cefnogi'n benodol dysgu Makaton – gall holl ysgolion Cymru gael mynediad at hwn. Rydym hefyd yn darparu arian uniongyrchol i'r Consortia Addysg Rhanbarthol, yn flynyddol, a maen nhw yn penderfynu sut orau i gefnogi ysgolion yn eu rhanbarth gyda'r gronfa hon. Byddent yn ymwybodol os bydd unrhyw ddefnydd neu alw am Makaton yn eu hardal ac yn cynnig cefnogaeth yn unol a hynny.

Ysgolion unigol sy'n penderfynu ar drefniadau maent yn eu mabwysiadu ar gyfer anghenion holl ddysgwyr, i arsylwi ac asesu eu gwelliant, ac i benderfynu natur unrhyw ddarpariaeth Anghenion Dysgu Arbennig (ADA) maent yn rhoi yn ei le. Er enghraifft, os bydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei adnabod a'r angen am gefnogaeth gyda chyfathrebu i'w galluogi i gael mynediad at addysg addas, byddai'r ysgol ac awdurdod lleol yn gyfrifol am drefnu hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd i gymryd lle y system ADA presennol yng Nghymru. I gefnogi gweithrediad a throsglwyddiad llwyddiannus o'r system ADY newydd, rydym wedi ymrwymo pecyn £20miliwn o fuddsoddiad ar gyfer y rhaglen ADY drawsffurfiol. Bydd cyfran arwyddocaol o'r gronfa hon yn cael ei defnyddio i gefnogi gweithgaredd i ddatblygu sgiliau y gweithlu addysg i sicrhau bod ymarferwyr yn gallu gweithredu'r system newydd yn effeithiol a gwella deilliannau i ddysgwyr gydag ADY.

Gobeithio bod cynnwys yr ymateb hwn yn ddefnyddiol.

Yn Gywir



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education